# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Ionawr 2026

Amser: 15.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(15.00 - 15.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(15.00)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(15.00 - 15.05)

**2.1 SL(6)696 - Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 2) 2025**

(Tudalennau 1 - 2)

Gorchymyn

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 - Papur 1 - Adroddiad drafft

Offerynnau Negyddol Drafft

**2.2 SL(6)698 - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025**

(Tudalennau 3 - 5)

Cod Ymarfer

Memorandwm Esboniadol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**2.3 SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025**

(Tudalennau 6 – 7)

Cod Ymarfer

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**2.4 SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025**

(Tudalennau 8 – 10)

Cod Ymarfer

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(15.05 – 15.10)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 11 – 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)697 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 14 – 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 6 – Adroddiad drafft

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.3 SL(6)701 – Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026**

(Tudalennau 16 – 17)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)702 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026**

(Tudalen 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 8 – Adroddiad drafft

**3.5 SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 19 – 20)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 9 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(15.10– 15.15)

**4.1 SL(6)677 – Rheoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaeth Drosiannol, Darpariaeth Ddirymu a Darpariaeth Arbed) 2025**

(Tudalennau 21 – 27)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-02-26 – Papur 10 – Adroddiad

LJC(6)-02-26 – Papur 11 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)692 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 28 – 31)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-02-26 – Papur 12 – Adroddiad

LJC(6)-02-26 – Papur 13 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(6)693 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 32 – 37)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-02-26 – Papur 14 – Adroddiad

LJC(6)-02-26 – Papur 15 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(15.15 – 15.20)

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(15.20 – 15.25)

**6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalen 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 16 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 9 Ionawr 2026

**6.2 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

(Tudalen 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 17 – Llythyr oddi wrth Prif Weinidog Cymru, 14 Ionawr 2026

## 7 Papurau i'w nodi

(15.25 – 15.30)

**7.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

(Tudalennau 40 – 46)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 18 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2026

**7.2 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 47 – 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 19 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 13 Ionawr 2026

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

(Tudalennau 49 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 - Papur 20 - Ymateb Llywodraeth Cymru, Ionawr 2026

**7.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Mabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd data newydd y DU gan y Comisiwn Ewropeaidd**

(Tudalen 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 - Papur 21 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Ionawr 2026

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 9, 10, 13 ac 14

(15.30)

## Cyfarfod preifat

(15.30 - 15.55)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2)

(15.30 -15.40) (Tudalennau 52 - 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 - Papur 22 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

(15.40 -15.55) (Tudalennau 57 - 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 23 – Adroddiad drafft [I ddilyn] [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-26 – Paper 24 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 12 Ionawr 2026 [Saesneg yn unig]

## Egwyl

(15.55 - 16:00)

## Cyfarfod cyhoeddus

(16.00 - 16.45)

## 11 Bil Cynllunio (Cymru) – Trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

(16.00 - 16.15)

Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

James George, Uwch Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad, Cyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru

Ar 15 Rhagfyr 2025, cytunodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 26C.27, mai'r drefn ar gyfer trafodion fyddai:

adran 3 i adran 109; Atodlen 1 i Atodlen 11; adran 110 i adran 205; Atodlen 13; adran 206 i adran 220; Atodlen 12 ac Atodlen 14 i Atodlen 16; adran 221 i adran 302; Atodlen 17; adran 303 i adran 322; Atodlen 18; adran 323 i adran 359; Atodlen 19; adran 360 i adran 410; Atodlen 20; adran 2; adran 1; a'r teitl hir.

Dogfennau ategol:

Rhestr o welliannau wedi'u didoli

Grwpio gwelliannau

Bil Cynllunio (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)

Memorandwm Esboniadol

## 12 Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) – Trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

(16.15 – 16.45)

Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

James George, Uwch Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad, Cyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru

Ar 15 Rhagfyr 2025, cytunodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 26C.27, mai'r drefn ar gyfer trafodion fyddai:

Adran 1 ac adran 2; Atodlen 1 i Atodlen 4; adran 3; Atodlen 5; adran 4 i adran 6; a'r teitl hir.

Dogfennau ategol:

Rhestr o welliannau wedi'u didoli

Grwpio gwelliannau

Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)

Memorandwm Esboniadol

## Cyfarfod preifat

(16.45 – 17.00)

## 13 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Ystyriaeth fanwl y Pwyllgor ar y camau nesaf

(16.45 – 16.50)

## 14 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

(16.50 – 17.00) (Tudalennau 59 – 73)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-26 – Papur 25 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-26 – Papur 26 – Adroddiad drafft [I ddilyn] [Saesneg yn unig]

# SL(6)696 – Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 2) 2025

## Cefndir a Diben

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("y Ddeddf") ac mae'n dwyn i rym y darpariaethau a bennir yn y Gorchymyn ar y dyddiadau a bennir yn y Gorchymyn.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym adrannau 90 ac 91 o'r Ddeddf ar 16 Mawrth 2026.

Ar 4 Mehefin 2024, daeth adran 147(1)(b) o'r Ddeddf â'r darpariaethau yn Rhannau 2 i 8 o'r Ddeddf (y mae adrannau 90 ac 91 yn rhan ohonynt) i rym, sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau, neu i wneud darpariaeth ynghylch yr hyn y caniateir (neu na chaniateir) ei wneud wrth arfer pŵer i wneud rheoliadau.

Mae adran 90 yn cynnwys pŵer i wneud gorchymyn. Mae adran 91 yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau.

Ymddengys felly y gall adran 90 fod eisoes mewn grym yn rhannol, er y byddai barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'n ystyried bod pŵer i wneud gorchymyn yn dod o fewn cwmpas adran 147 yn cael ei gwerthfawrogi, gan ystyried effaith adran 39(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol).

Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn bod adran 91 eisoes mewn grym yn rhannol.

O dan amgylchiadau o'r fath, byddai disgwyl i'r Gorchymyn nodi bod adrannau 90 ac 91 yn cael eu cychwyn ar 16 Mawrth 2026 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, fel y gwnaed yn achos darpariaethau eraill yn y Gorchymyn. Gall methu â chynnwys geiriau i berwyl y geiriad sydd wedi'i danlinellu arwain at ddryswch o ran pryd y daeth agweddau penodol ar adrannau 90 ac 91 i rym. Felly, gofynnir am gadarnhad ynghylch a yw'r Llywodraeth yn ystyried bod unrhyw agwedd ar adrannau 90 ac 91 eisoes mewn grym, ac os felly, pam nad yw hyn wedi cael ei ystyried yn y Gorchymyn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**13 Ionawr 2026**

# SL(6)698 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiadol gan neu ar ran ymgeiswyr unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i gyfyngu gan *Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025* ('**Gorchymyn 2025**').

Mae Rhannau 1 a 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 yn berthnasol i'r diffiniad o 'treuliau etholiadol'.

Mae *Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025* ('**y Cod**') yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys o fewn cwmpas Rhan 1 neu 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Nid yw'r Cod yn rhoi canllawiau i'r ymgeiswyr hynny sy'n sefyll i gael eu hethol i'r Senedd ar ran plaid wleidyddol (hynny yw, ymgeiswyr rhestr plaid).

Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Cymeradwywyd y drafft gan Weinidogion Cymru ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd o dan baragraff 20(4) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

## Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, daw'r Cod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, a rhaid i'r Comisiwn Etholiadol drefnu i'r Cod gael ei gyhoeddi yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

1. Nodwn baragraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n datgan bod y fersiwn hon o'r Cod yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i ymdrin â materion a nodwyd yn y fersiwn o'r Cod a dynnwyd yn ôl ac a osodwyd ar 13 Hydref 2025 (SL(6)655).

2. Ym mharagraff 1.1, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi: "*This Code of Practice on individual candidate election expenses for Senedd elections is issued by Welsh Ministers…*". Yr hyn sydd yn y testun Cymraeg yw "*Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau etholiad ymgeiswyr unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru* […]" nad yw'n gwneud synnwyr.

3. Ym mharagraff 1.3, mae'r diffiniad o "treuliau etholiad" yn y testunau Cymraeg a Saesneg yn wahanol. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi: "*'election expenses' has the meaning set out in article 65 of the 2025 Order*". Ond yn y testun Cymraeg, yn y bôn mae'n dyblygu testun diffiniad ar wahân ar gyfer "treuliau personol".

4. Ym mharagraff 1.3, yn y testun Cymraeg, mae'r term "treuliau etholiad" wedi'i ddiffinio. Fodd bynnag, drwy gydol y Cod, mae'r term yn amrywio a defnyddir "*treuliau etholiad*" a "*treuliau etholiad**ol***". Mae hyn yn cynnwys paragraffau 1.4 ac 1.13. Nodwn fod testun Cymraeg erthygl 65 o *Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025* yn defnyddio'r term "*treuliad etholiad*".

5. Ym mharagraff 1.19, yn y testun Cymraeg, mae ffurf dreigledig ar yr ymadrodd "*mynd i*" wedi'i defnyddio i gyfieithu "*incurring*", sef y term safonedig yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae term gwahanol "*ysgwyddo*" wedi cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill i fynegi ystyr "incur" yn nhestun Cymraeg y Cod. Felly, mae anghysondeb yn nhestun Cymraeg y Cod. At hynny, ym mharagraffau 1.12, 3.3 a 9.5 a phennawd adran 7 o'r Cod, mae testun Cymraeg darpariaethau Gorchymyn 2025 a ddyfynnir wedi'i newid i ddefnyddio "*ysgwyddo*" i fynegi "incur" yn hytrach na'r ffurfiau ar "*mynd i*" a geir mewn gwirionedd yn nhestun Cymraeg y darpariaethau hynny yng Ngorchymyn 2025.

6. Ym mharagraff 3.1, yn y testun Cymraeg, mae ystyr "*relevant*" wedi cael ei fynegi drwy ddefnyddio'r gair "*berthnasol*". Fodd bynnag, yn nhestun Cymraeg paragraff 3.2, mae'r un gair "*berthnasol*" wedi cael ei ddefnyddio ar ddau achlysur i fynegi ystyr "*applies*". Felly, ni fydd darllenydd y testun Cymraeg yn gallu gwahaniaethu rhwng ystyr "*relevant*" ac "*applies*" wrth ddarllen y Cod. At hynny, mae anghysondeb drwy gydol testun Cymraeg y Cod oherwydd bod ffurfiau ar "*perthnasol*" a "*[bod] yn gymwys*" wedi cael eu defnyddio i fynegi ystyr "*apply*". Yn hyn o beth, mae'r term "*apply*" wedi'i safoni'n llawn fel "*bod yn gymwys*" yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

7. Ym mharagraff 4.8, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*a social media channel*" ond yn y testun Cymraeg ceir "*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*". Mae hyn hefyd yn digwydd yn ddiweddarach ar ddiwedd paragraff 5.9 o'r Cod. Mae enghraifft debyg hefyd ym mharagraff 4.10 lle mae'r testun Saesneg yn nodi "*a social media platform*" ond ceir "*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*" yn y testun Cymraeg. At hynny, ym mharagraff 7.3, mae'r testun Saesneg

yn datgan “*a channel or platform*” ond ceir “*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*” yn y testun Cymraeg.

8. Ym mharagraff 4.14, yn y testun Cymraeg, ar ddechrau’r trydydd pwynt bwled, mae’r gair “*pan*” ar goll i fynegi ystyr “*where*” fel y dylai nodi “*pan gafodd*” (fel y ceir yn ddiweddarach ym mharagraff 5.13).

9. Ym mharagraff 9.5, yn y geiriau ar ôl y ddau bwynt bwled cyntaf, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae’n nodi “*where that*” ond yn y testun Cymraeg mae’n nodi “*pan fo mae’r*” nad yw’n gwneud synnwyr gramadegol.

10. Ym mharagraff 9.5, mae’r term “*election period*” wedi’i ddefnyddio yn y testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mynegir y term drwy ddefnyddio ffurf dreigledig ar “*cyfnod etholiadol*” ond nodwn fod Gorchymyn 2025 yn defnyddio ffurf ar “*cyfnod yr etholiad*”. Ar wahân i hynny, nodwn nad yw’r term ‘*election period*’ wedi cael ei ddiffinio yn y Cod, ond ei fod wedi cael ei ddefnyddio yn y trydydd a’r pedwerydd pwyntiau bwled ym mharagraff 9.5. Felly, rydym yn cwestiynu a fyddai’n ddefnyddiol i’r darllenydd pe bai’r term hwn yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at erthygl 69(6) o Orchymyn 2025.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau 2-10.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2026**

# SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025

## Cefndir a diben

Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ('y Cod') yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys o fewn cwmpas paragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000').

Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'gwariant ymgyrch' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol amdanynt. Mae paragraff 1 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan eir iddynt at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod drafft gydag addasiadau.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, a chaiff ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod Ymarfer.

1. Mae anghysondeb rhwng paragraffau 11.3 o'r testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "users of a channel or platform" tra bod y testun Cymraeg yn cyferirio at "ddefnyddwyr sianel neu lwyfan **cyfryngau cymdeithasol**". Nid yw'r cyfeiriad at gyfryngau cymdeithasol yn ymddangos yn y testun Saesneg.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Ionawr 2026**

Eitem 2.4

# SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ('y Cod') yn rhoi canllawiau ynghylch gweithredu Rhan 6 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000') ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

Mae'r Cod yn nodi:

- beth yw ymgyrchydd nad yw'n blaid;
- beth yw ymgyrchu di-blaid;
- y mathau o dreuliau sy'n dreuliau cymwys;
- o dan ba amgylchiadau y mae treuliau i'w hystyried, neu nad ydynt i'w hystyried, yn dreuliau a ysgwyddir er mwyn hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol;
- y mathau o wariant sy'n cael eu trin fel rhoddion neu wariant tybiannol a reolir;
- yr amgylchiadau a fydd yn cael eu hystyried yn ymgyrchu ar y cyd;
- beth yw gwariant a reolir wedi'i dargedu a phryd y mae'n berthnasol; a hefyd
- y gofynion cofnodi ac adrodd (gan gynnwys ar gyfer cyfnodau rheoleiddiedig cyfunol).

## Gweithdrefn

Negyddol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, a'i gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â’r cod hwn.

(i) Anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg

1. Ym mharagraff 1.10, yn y diffiniad o “ymgeisydd rhestr plaid”, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi “has the same meaning as **article 2** of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025”. Ond mae’r testun Cymraeg yn nodi “yr un ystyr ag **adran 2** o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025”. Yn ogystal, dylid nodi yn nhestun y ddwy iaith fod ganddo'r un ystyr ag “**yn** erthygl 2” a byddai'n fwy manwl gywir cyfeirio at erthygl **2(1)** o Orchymyn 2025.

2. Ym mharagraff 6.18, yn y frawddeg gyntaf, mae gwahaniaethau rhwng y testun Saesneg a Chymraeg. Ar ddechrau'r frawddeg honno yn y testun Saesneg, mae'n nodi “If the political party use the...” mae’r testun Cymraeg yn nodi “Os bydd y blaid wleidyddol gofrestredig yn defnyddio’r...”. Yn ogystal, ar ddiwedd y frawddeg honno yn y testun Saesneg, mae'n nodi “on behalf of the registered political party” ond mae’r testun Cymraeg yn nodi “ar ran yblaid wleidyddo”.

(ii) Defnydd anghyson o dermau yn y testun Cymraeg

3. Ym mharagraff 1.10, yn y testun Cymraeg, mae'r term “notional controlled expenditure” wedi'i ddiffinio fel “gwariant **tybiannol** a reolir”. Fodd bynnag, mae term gwahanol, sef “gwariant a reolir **tybiannol**”, yn cael ei ddefnyddio yn y testun Cymraeg ym mharagraff 1.8 ac ym mhennawd adran 6 o’r Cod. Nid yw'r diffiniad yn gyson, felly, â'r term a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Cod.

(iii) Materion drafftio eraill

4. Ym mharagraff 1.10, diffinnir y term “ysgwyddo” ar gyfer y Cod. Fodd bynnag, nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio yn y Codau cysylltiedig eraill. Felly, a oes rheswm dros y dull gwahanol a pham mae'r term wedi'i ddiffinio ar gyfer y Cod hwn ond nid ar gyfer y Codau cysylltiedig eraill?

5. Ym mharagraff 1.10, nid oes diffiniad o'r term "rhestr plaid" er ei fod yn cael ei ddefnyddio ar un achlysur ym mharagraff 3.12 o'r Cod ac yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2025. Felly, dylid diffinio'r term hwn yn y Cod hefyd os bwriedir iddo fod â’r un ystyr ag a roddir gan erthygl 2(1) o Orchymyn 2025.

6. Ym mharagraff 1.10, yn y diffiniad o “cyfnod a reoleiddir”, mae’r cyfeiriad yn anghyflawn lle mae’n nodi “Mae adran 89B(6) yn cyfeirio at y cyfnod hwn” gan nad yw’n nodi’r Ddeddf sy’n cynnwys yr adran honno. Mae cyfeiriadau eraill ym mharagraff 1.10 fel arfer wedi cynnwys “o PPERA” wrth gyfeirio’r darllenydd at adrannau o’r Ddeddf honno.

7. Yn y pennawd uwchben paragraff 6.17, ac ym mharagraff 6.18, defnyddiwyd y term “plaid wleidyddol gofrestredig” (er mewn gwahanol leoedd yn nhestunau’r ddwy iaith o baragraff 6.18). Fodd bynnag, ym mharagraff 1.10, diffinnir y term “plaid wleidyddol” fel plaid sydd wedi’i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA. Os nodir y diffiniad o “plaid wleidyddol” fel plaid sydd wedi’i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA, mae’n ymddangos bod y gair “cofrestredig” yn y disgrifiadau hynny yn ddiangen. Mae, hefyd, o bosibl yn gamarweiniol i'r darllenydd os yw'r termau “plaid wleidyddol” a “phlaid wleidyddol gofrestredig” yn dwyn yr un ystyr yn y Cod.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**14 Ionawr 2026**

# SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Sefydlodd Deddf Caffael 2023 ("**Deddf 2023**") bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chaffael cyhoeddus Cymru.

Mae *Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025* (y "**Rheoliadau**") yn diweddaru trothwyon ariannol penodol yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023 ("**Atodlen 1**"), sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Mae'r trothwyon hynny yn pennu uwchlaw pa werth y mae contractau o wahanol fathau i gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn caffael cyhoeddus o sylwedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd "y diwygiadau hyn yn dilyn adolygiad o'r trothwyon perthnasol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfateb i'r trothwyon perthnasol a osodir yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael Llywodraeth". Mae'n nodi ymhellach y bydd hyn yn sicrhau "bod y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol" ac y bydd yn "rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio Cymru, yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodaethau'r DU, ac yn lleihau'r risg o anghydfodau masnach".

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi y daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2026.

## 2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y diwygiadau a wnaed i Atodlen 1 gan y Rheoliadau hyn wedi dod i rym bum munud yn ddiweddarach na diwygiadau ar wahân a wnaed i'r un ddarpariaeth gan reoliadau Senedd y DU.

Er ein bod yn fodlon bod Atodlen 1 fel y'i diwygiwyd yn gyfreithiol gadarn, rydym yn pryderu ynghylch anhygyrchedd a darllenadwyedd y gyfraith fel y'i cyhoeddwyd o ganlyniad i hyn.

Isod mae sgrinluniau o Atodlen 1 fel y'i cyrchwyd ar 13 Ionawr 2026 (12 diwrnod ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym) o Legislation.gov a dwy wefan ddeddfwriaeth ar wahân sy'n seiliedig ar danysgrifiadau. Nodwn fod y testun cyn y tabl yn amrywio rhwng y tair fersiwn, yn ogystal â chynnwys y tabl ei hun.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Rheoliadau hyn yn "*rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio Cymru*". Felly, rydym yn ystyried bod yr amrywiadau hyn yn hynod annymunol, yn ddryslyd ac yn ansicr i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth (gan gynnwys defnyddwyr proffesiynol).

**1**

Procurement Act 2023

◂ Previous: Provision | Next: Paragraph ▸

1 (1) [F1 The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is [F2 the threshold set out in the corresponding row of the third column.]

F3 (c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F4 (d) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .]

| | *Type of contract* | F5 ... | F6 ... | [F7 *Threshold amount* F8 ... |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Defence and security contract that is a works contract | F5 ... | F6 ... | £5,193,000 |
| 2 | Defence and security contract that is a concession contract | F5 ... | F6 ... | £5,193,000 |
| 3 | Defence and security contract not within row 1, 2 or 8 | F5 ... | F6 ... | £415,440 |

**2**

**1**

(1) [The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is—

(c) if the contract is regulated by the Welsh Ministers, the threshold set out in the corresponding row of the third column, and

(d) in any other case, the threshold set out in the corresponding row of the fourth column].

| | Type of contract | ***Threshold amount*[*: contract regulated by Welsh Ministers*]** | [Threshold amount***: any other contract*** [: contract regulated by Welsh Ministers] | [***Threshold amount: any other contract*** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Defence and security contract that is a works contract | ***£5,336,937*** | £5,372,609 | [£5,193,000 |
| 2 | Defence and security contract that is a concession contract | ***£5,336,937*** | £5,372,609 | £5,193,000 |
| 3 | Defence and security contract not within row 1, 2 or 8 | ***£426,955*** | £429,809 | £415,440 |

1

3

(1) [ The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is [...] [2] ] [1] [...] [3] [

| | Type of contract | Threshold amount [...] [5] |
|---|---|---|
| 1 | Defence and security contract that is a works contract | £5,193,000 |
| 2 | Defence and security contract that is a concession contract | £5,193,000 |
| 3 | Defence and security contract not within row 1, 2 or 8 | £415,440 |

Nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol o dan ddyletswydd barhaus i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei bod yn cael ei chyhoeddi ar ffurf gyfredol (gan gynnwys dangos a oes deddfiadau mewn grym ac ymgorffori unrhyw ddiwygiadau iddynt), sicrhau ei bod yn hawdd ei deall a'i bod yn sicr o ran ei heffaith.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa un o'r tri uchod sy'n adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym yn gywir ar y dyddiad y mae'n ymateb.

Rydym hefyd yn gofyn am ymateb mewn perthynas â'n pryderon ehangach ynghylch hygyrchedd deddfwriaeth wedi'i diwygio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r ail bwynt rhinweddau yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2026**

# SL(6)697 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer newid rhestrau prisio'r dreth gyngor, a gwneud apelau i Dribiwnlys Prisio Cymru pan fo anghytundeb rhwng swyddog rhestru a pherson sy'n gwneud cynnig ar gyfer newid rhestr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 1993. Y prif ddiwygiadau yw gosod gofyniad ar swyddogion rhestru i ddarparu gwybodaeth am eiddo i drethdalwyr sydd wedi gwneud cynnig cymwys ("cynigydd"), a chaniatáu i gynigwyr apelio'n uniongyrchol i Dribiwnlys Prisio Cymru yn erbyn penderfyniadau gan y swyddog rhestru, neu yn dilyn methiant gan swyddog rhestru i wneud penderfyniad o fewn pedwar mis ar ôl cael cynnig. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhoi pwerau rheoli achos ychwanegol i Dribiwnlys Prisio Cymru sydd eisoes ar gael iddo wrth wrando ar apelau mewn perthynas â newid rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynigion a wneir ar 1 Chwefror 2026 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 9, mae'r geiriau mewn cromfachau ar ôl cyfeirio at "rheoliad 11" wedi'u nodi'n anghywir fel "(tynnu **apelau** yn ôl)". Fodd bynnag, dylai nodi "(tynnu **cynigion** yn ôl)" gan mai "withdrawal of **proposals**" yw'r pwnc a nodir ym mhennawd rheoliad 11 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 11(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle cyfeiriad presennol yn rheoliad 15(3)(b) o Reoliadau 1993 yn Saesneg, "10 **or** 10C". Ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle'r cyfeiriad presennol yn Gymraeg, "10 **neu** 10C". Fodd bynnag, dylai testun Cymraeg rheoliad 11(b) hefyd fewnosod y cyfeiriad newydd yn Saesneg oherwydd mai dim ond yn Saesneg yn hytrach nag yn ddwyieithog y gwnaed Rheoliadau 1993.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 14, yn rheoliad 19(2) newydd, disgrifir y cyfeiriad yn anghywir fel "**sub-paragraphs** (1)(a) or (c)". Fodd bynnag, y disgrifiad cywir yw "**paragraph** (1)(a) or (c)". Mae hefyd yn anghyson â chyfeiriadau eraill a ddisgrifir yn gywir yn y diwygiadau testunol megis y cyfeiriad at "paragraph (2)(b) or (c)" yn rheoliad newydd 25D(3) a fewnosodir gan reoliad 17 o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2026**

# SL(6)701 – Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano yng Nghymru i berson yng Nghymru i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y niwed y mae yfed gormod o alcohol yn ei achosi i iechyd pobl ac i'r gymdeithas.

Mae adran 22(1) o'r Ddeddf yn darparu bod y darpariaethau ynghylch yr isafbris a nodir yn y Ddeddf yn peidio â chael effaith ar ôl 6 blynedd o'r dyddiad y daw adran 2 o'r Ddeddf i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n darparu fel arall. Daeth adran 2 o'r Ddeddf i rym ar 2 Mawrth 2020.

Gan ddibynnu ar bwerau yn adran 22(2) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r diddymiad hwnnw yn adran 22(1). Effaith y Rheoliadau hyn yw y bydd darpariaethau'r isafbris a nodir yn y Ddeddf yn parhau mewn grym.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

*"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2026**

# SL(6)702 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r isafbris am uned ar gyfer alcohol yng Nghymru o 50c i 65c yr uned.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 2.3 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y datganiad canlynol:

> *"Mae'r offeryn hwn wedi'i lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2026**

# SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae Adran 24A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”) gadw cyfrif o elw ardoll ymwelwyr a gesglir ar gyfer pob prif gyngor sydd wedi cyflwyno’r ardoll ymwelwyr yn ei ardal. Yna, rhaid i'r ACC dalu'r elw i'r cyngor perthnasol ar ôl i'r ACC ddidynnu costau arfer ei swyddogaethau ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu'r didyniad a ganiateir i 10% o elw'r ardoll ymwelwyr. Mae'r Rheoliadau, hefyd, yn cynnwys mecanwaith lle mae'r didyniad yn cael ei gyfyngu ymhellach pe bai'n arwain at ACC yn didynnu symiau sy'n fwy na chyfanswm ei gostau gweithredu ardoll ymwelwyr.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y Rheoliadau hyn, mae'r term “ardoll ymwelwyr” wedi cael ei ddefnyddio sawl gwaith ond nid yw wedi'i ddiffinio. Mae'n derm wedi'i ddiffinio yn adran 192(2) o Ddeddf 2016, lle rhoddwyd yr un ystyr iddo ag yn Rhan 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

Nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy’n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sy’n darparu bod gan ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru, felly, i egluro pam nad oes diffiniad o ‘ardoll ymwelwyr’ yn ymddangos yn y Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

O dan adran 25(3) o Ddeddf 2016, rhaid i ACC dalu i Gronfa Gyfunol Cymru symiau a ddidynnwyd, mewn perthynas â'i gostau, o elw'r ardoll ymwelwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfynau rhagnodedig ar swm y didyniadau hynny.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y datganiad canlynol:

> *"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2026**

# SL(6)677 - Rheoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaeth Drosiannol, Darpariaeth Ddirymu a Darpariaeth Arbed) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses gwneud cais a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i fathau o brosiectau seilwaith mawr a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae'r broses newydd o dan Ddeddf 2024 yn disodli, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, nifer o gyfundrefnau statudol presennol ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith arwyddocaol, gan gynnwys yn benodol, ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"). I'r graddau y mae cydsyniad o dan adran 19 o Ddeddf 2024 yn ofynnol ar gyfer datblygiad, naill ai nid yw'r cydsyniadau y cyfeirir atynt yn adran 20 o Ddeddf 2024 yn ofynnol ar gyfer datblygiad, neu ni chânt awdurdodi datblygiad.

Mae rheoliadau 2 i 19 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar Ddeddf 2024 i is-ddeddfwriaeth. Yn benodol maent yn sicrhau y cyfeirir at Ddeddf 2024 pan fo'n briodol. Hepgorir cyfeiriadau at ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ac eithrio i'r graddau y maent yn ofynnol at ddibenion gweithredu'r ddarpariaeth drosiannol yn adran 146 o Ddeddf 2024.

Mae rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n atodol i adran 146 o Ddeddf 2024.

Mae rheoliad 21 yn dirymu rheoliadau sy'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Mae rheoliad 22 yn adlewyrchu'r ddarpariaeth arbed yn adran 146(10) o Ddeddf 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 21 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Daw rheoliad 1(2) a rheoliadau 21 a 22 i rym ar 14 Rhagfyr 2025, tra bod yr holl reoliadau eraill yn dod i rym ddiwrnod yn ddiweddarach ar 15 Rhagfyr 2025. Nid yw'n glir pam mae gwahaniaeth o un diwrnod rhwng cychwyn y darpariaethau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(2), mae'r lleoliad ar gyfer mewnosod y testun newydd yn y diffiniad o "relevant consent" wedi'i ddisgrifio'n anghywir fel "ar ôl **is-baragraff** (e)". Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio fel "ar ôl **paragraff** (e)" oherwydd ei fod yn rhaniad cyntaf o ddiffiniad yn hytrach nag yn rhaniad o baragraff (1A) yn rheoliad 2 o Reoliadau Diogelwch y Diwydiannau Niwclear 2003. Yn hyn o beth, mae anghysondeb yn bodoli eisoes yn y croesgyfeiriadau yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003 lle mae paragraff (aa) o fewn y diffiniad o "nuclear premises" wedi'i ddisgrifio'n anghywir fel is-baragraff mewn rhai lleoedd yn wahanol i baragraffau eraill â'r un diffiniad.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 5(2)(b), disgrifir y lleoliad ar gyfer mewnosod y testun newydd yn y diffiniad o "awdurdod priodol" yn anghywir fel "yn **is-baragraff** (a)". Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "ym **mharagraff** (a)" oherwydd ei fod yn rhaniad cyntaf o'r diffiniad yn hytrach nag yn rhaniad o baragraff (1) yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 5(2)(e)(ii), disgrifir y lleoliad ar gyfer mewnosod y testun newydd yn y diffiniad o "regulatory approval" yn anghywir fel "ar ôl **is-baragraff** (d)". Mae hefyd yn anghyson â'r disgrifiad blaenorol yn rheoliad 5(2)(e)(i) lle mae'n cyfeirio'n gywir at yr un ddarpariaeth fel "**paragraff** (d)".

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 5(4)(a), disgrifir y lleoliad ar gyfer mewnosod y testun newydd yn anghywir fel "yn **is-baragraff** (4)". Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "ym **mharagraff** (4)" oherwydd ei fod yn rhaniad cyntaf o reoliad 10A o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 8(2)(c), yn y testun Saesneg, mae'r diffiniad newydd o "relevant infrastructure consent order" wedi'i fewnosod yn anghywir ar ôl y diffiniad o "relevant consent order" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013. Fodd bynnag, dylid bod wedi mewnosod y diffiniad newydd ar ôl y diffiniad o "relevant extension" oherwydd bod yr holl ddiffiniadau presennol wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor Saesneg yn nhestun Saesneg y rheoliad hwnnw (ac eithrio'r diffiniadau o ddeddfwriaeth sydd wedi'u trefnu'n gronolegol ar y dechrau).

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 8(3)(b), mae testun presennol rheoliad 4(1A) yn Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013 wedi'i ddiwygio fel bod "or an infrastructure consent order" yn cael ei fewnosod ar ôl "consent order" ym mhob lle y mae'n codi. Fodd bynnag, mae'r diwygiad diweddarach a wnaed gan reoliad 8(3)(c)(i) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod y term "or a **relevant** infrastructure consent order" yn rheoliad 4(3A)(b)(i) a (ii) o Reoliadau 2013 a fydd, fel y'u diwygiwyd, yn cyfeirio'r darllenydd at reoliad 4(1A)(a) a (b) o'r Rheoliadau hynny. Felly, a ddylai'r diwygiad a wneir gan reoliad 8(3)(b) fewnosod y term "or a **relevant** infrastructure consent order" yn hytrach na "or an infrastructure consent order" yn unrhyw un o'r lleoedd hynny yn rheoliad 4(1A) o Reoliadau 2013? (mae "infrastructure consent order" a "relevant infrastructure consent order" ill dau yn dermau wedi'u diffinio)

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 12(3)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "omit the definition of "the 2016 Order" and insert-" heb nodi ble y dylid mewnosod y diffiniadau newydd. Ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "hepgorer y diffiniad o "Gorchymyn 2016" ("the 2016 Order") ac ar ôl y diffiniad o "prif gyngor" ("principal council") mewnosoder—" sy'n nodi ble y dylid mewnosod y diffiniad newydd yn y rhestr bresennol o ddiffiniadau. Os mai bwriad y diwygiad a wneir gan y testun Saesneg yw mewnosod y diffiniadau newydd yn yr un lle â'r diffiniad a hepgorwyd, dylai ddefnyddio'r disgrifiad "for the definition of "the 2016 Order" substitute-" i nodi'r lleoliad hwnnw.

9. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(3)(c)(i), disgrifir lleoliad y testun i'w ddiwygio yn gywir fel "ym mharagraff (a)" o'r diffiniad o "yr ymgynghoreion" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, disgrifir y diwygiad fel un sy'n hepgor y geiriau hyd at "ddiwedd **yr is-baragraff**" wrth gyfeirio o hyd at baragraff (a) o'r diffiniad hwnnw. Yn ogystal, mae testun presennol y diffiniad hwnnw hefyd yn cyfeirio'n anghywir at raniadau'r diffiniad hwnnw fel "is-baragraffau", ond dylid eu disgrifio fel "paragraffau".

10. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(3)(d), disgrifir lleoliad y testun i'w ddiwygio yn anghywir fel "yn **is-baragraff** (a)" o'r diffiniad o "cais AEA" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "ym **mharagraff** (a)" o'r diffiniad hwnnw yn Rheoliadau 2017. Mae hyn hefyd yn digwydd yn rheoliad 12(3)(j) lle mae'n nodi "hepgorer **is-baragraff** (a)" yn y diffiniad o "awdurdod cynllunio perthnasol" ond dylid ei ddisgrifio fel "**paragraff** (a)".

**11. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(7)(a) a (b), disgrifir lleoliad y testun yn anghywir fel "ym **mharagraff** (a)" ac "ym **mharagraff** "(b)" o reoliad 4(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, dylid eu disgrifio fel "yn **is-baragraff** (a)" ac "yn **is-baragraff** (b)" yn y drefn honno oherwydd eu bod yn adrannau o baragraff (1) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2017.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(7)(b), disgrifir y diwygiad fel "hepgorer "neu Orchymyn 2016" a mewnosoder "Rheoliadau Ceisiadau 2025 neu Reoliadau Archwiliadau 2025". Fodd bynnag, dylid disgrifio'r diwygiad fel "ar gyfer "Gorchymyn 2016" rhodder ", Rheoliadau Ceisiadau 2025 neu Reoliadau Archwiliadau 2025" os yw'n mewnosod y testun newydd yn yr un lleoliad â'r testun presennol yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 12(17)(d), yn y paragraff newydd (5A)(a) a (b), yn y testun Cymraeg, gwneir y newidiadau i gyfeiriadau at "cais" a "Gweinidogion Cymru" yn y drefn honno a geir yn rheoliadau 25 a 26 o Reoliadau Ceisiadau 2025. Fodd bynnag, defnyddir ffurfiau treigledig o'r ymadroddion hynny hefyd yn rheoliadau 25 a 26 o Reoliadau Ceisiadau 2025. Felly, oni ddylai testun Cymraeg y paragraff newydd (5A)(a) a (b) nodi'r ffurfiau treigledig sydd wedi'u haddasu hefyd?

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(25)(a), disgrifir lleoliad y testun ar gyfer y gwelliannau yn anghywir oherwydd ei fod yn nodi bod yr ymadroddion i'w cael "ym mharagraff (2)(b)" o reoliad 27 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, mae'r testun a nodir ar gyfer y diwygiad a wneir gan reoliad 12(25)(a)(ii) i'w gael yn y geiriau llawn ar ôl is-baragraff (b) ar ddiwedd paragraff (2) yn rheoliad 27 o Reoliadau 2017.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 12(26)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'r diwygiad yn nodi y dylid mewnosod y testun newydd "after "planning authority"" in paragraph (2)(b)(i) and (iv) of regulation 28 in the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017. Fodd bynnag, nid yw'r term "planning authority" yn codi ym mharagraff (2)(b)(iv) o reoliad 28 yn Rheoliadau 2017, lle mae'n cyfeirio at "the authority" yn unig. Yn y testun Cymraeg, mae'r diwygiad cyfatebol yn cael ei ddisgrifio'n wahanol fel bod y testun newydd yn cael ei fewnosod ar ôl "awdurdod cynllunio" ac "awdurdod" ym mharagraffau (i) a (iv) yn y drefn honno o reoliad 28(2)(b). Felly, nid yw'r diwygiad yn llwyddo yn y testun Saesneg er ei fod yn llwyddo yn y testun Cymraeg oherwydd y disgrifiadau gwahanol yn nhestun y ddwy iaith.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 12(42)(l)(i), disgrifir lleoliad y testun i'w ddiwygio yn anghywir fel "yn yr ailddatganiad o **baragraff** 56(1)(a)". Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "yn yr ailddatganiad o **reoleiddiad** 56(1)(a)" sydd wedi'i addasu gan baragraff 20 o Atodlen 6 i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

**17. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 13(2)(a), disgrifir lleoliad y testun i'w ddiwygio yn anghywir fel "ar ddiwedd **paragraff** (b)". Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "ar ddiwedd **is-baragraff** (b)" oherwydd ei fod yn rhaniad o baragraff (1) yn rheoliad 7 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Disgrifir darpariaeth arall yn rheoliad 7(1) o Reoliadau 2017 yn gywir fel "is-baragraff (c)" yn y diwygiad a wneir gan reoliad 13(2)(b) canlynol y Rheoliadau hyn.

**18. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 15(1), yn y testun Saesneg, mae teitl yr Offeryn Statudol wedi'i nodi'n anghywir fel "the Electricity (Offshore Generating Stations) (Variation of **Consent**) (Wales) Regulations 2019". Fodd bynnag, dylai fod enw lluosog "Consent**s**" yn yr ymadrodd "(Variation of Consent**s**)" yn nheitl yr Offeryn Statudol hwnnw fel y nodwyd yn gywir eisoes ym mhennawd y rheoliad hwnnw ac yn y testun Cymraeg cyfatebol.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 19(2), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Omit regulation **4**" ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "Hepgorer rheoliad **14**".

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 20(4), mae'r cyfeiriad yn anghyflawn gan ei fod yn nodi “At ddibenion adran 146(3)(b)” ond nid yw'n nodi'r Ddeddf lle mae'r adran honno wedi'i lleoli. Yn y paragraffau blaenorol yn rheoliad 20, mae'r cyfeiriadau agoriadol i gyd wedi cynnwys “o Ddeddf 2024” ar ôl dyfynnu'r adran berthnasol o'r Ddeddf honno.

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 20(5), diffinnir y termau “datblygiad” ac “awdurdod cynllunio” gydag ystyr ar gyfer rheoliad 20. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y diffiniadau hyn yn ddiangen gan nad yw'n ymddangos bod y naill term na'r llall yn cael eu defnyddio yn rheoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaeth Drosiannol, Darpariaeth Ddirymu a Darpariaeth Arbed) 2025**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Diben amseriad y ddarpariaeth ddirymu a'r ddarpariaeth arbed oedd sicrhau na fyddai amheuaeth nad yw swyddogaethau penodol sydd gan gyrff a gedwir yn ôl wedi eu dileu gan ddarpariaethau yn Neddf 2024 a ddaeth i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwyntiau Craffu Technegol 2, 3, 4, 5, 8, 9, 10, 11, 12, 14, 17 a 18:** Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y darpariaethau'n ddigon clir i nodi lle y mae'r diwygiadau'n cymryd effaith.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd, ond mae o'r farn nad oes angen unrhyw ddiwygiad.

**Pwyntiau Craffu Technegol 7, 15, 16, 19 ac 21:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen diwygiadau i egluro'r hyn y mae'r diwygiadau hyn yn ei wneud a bydd yn cyflwyno OSC diwygio tymor y Senedd hwn i egluro'r diwygiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 13:** Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y drafftio'n gywir ac felly mae o'r farn nad oes angen unrhyw ddiwygiad.

**Pwynt Craffu Technegol 20:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd hwn ond mae o'r farn ei bod yn amlwg o ddarllen y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd mai cyfeirio at Ddeddf 2024 a wneir.

Eitem 4.2

# SL(6)692 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar berson ("P") i ddarparu gwybodaeth i awdurdodau bilio pan fydd P yn dod yn dalwr ardrethi hereditament neu pan fydd newidiadau penodol yn digwydd mewn perthynas â meddiannaeth hereditament y mae P yn dalwr ardrethi arno (y "ddyletswydd gwybodaeth hysbysadwy"). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer system o gosbau am fethu â chydymffurfio â'r ddyletswydd honno a gweithdrefnau ar gyfer adolygu ac apelio yn erbyn cosbau.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i P hysbysu'r awdurdod bilio perthnasol am y newidiadau a ganlyn, ynghyd â'r dyddiad y digwyddodd hynny—

- Pan fydd newid yn hunaniaeth P. Mae hyn yn golygu bod rhaid i P hysbysu'r awdurdod bilio mai P yw'r talwr ardrethi newydd ar gyfer yr hereditament;
- Pan fydd P yn dod yn feddiannydd ac yr oedd yr hereditament heb ei feddiannu yn union cyn y newid. Mae hyn yn golygu bod rhaid i P hysbysu'r awdurdod bilio os yw P yn meddiannu'r hereditament a oedd heb ei feddiannu yn flaenorol (pa un a oedd P eisoes yn dalwr ardrethi fel perchennog yr hereditament heb ei feddiannu ai peidio);
- Pan fydd person yn peidio â bod yn feddiannydd a bod yr hereditament heb ei feddiannu yn union ar ôl y newid. Mae hyn yn golygu, pan fo P yn berchennog ar yr hereditament heb ei feddiannu (pa un a oedd P eisoes yn dalwr ardrethi fel y meddiannydd blaenorol ai peidio), rhaid i P hysbysu'r awdurdod bilio nad yw'n cael ei feddiannu mwyach. Rhaid i P gydymffurfio â'r ddyletswydd gwybodaeth hysbysadwy o fewn 60 o ddiwrnodau ar ôl i'r newid perthnasol ddigwydd.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch gosod cosbau ariannol. Pan fo P neu dalwr ardrethi blaenorol yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd gwybodaeth hysbysadwy o fewn y cyfnod a bennwyd, caniateir gosod cosb sifil o £500 ar y person hwnnw. Pan fo'r person hwnnw'n gwneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni cydymffurfio â'r ddyletswydd gwybodaeth hysbysadwy, bydd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae'r rheoliad hwn hefyd yn ymdrin â materion mewn perthynas ag adennill y gosb sifil.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch y wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad sy'n gosod cosbau o'r fath ("hysbysiad cosb").

Mae rheoliadau 6 i 8 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu hysbysiadau cosb a'u cyflwyno, gan gynnwys y gofyniad bod rhaid i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiad cosb pellach pan fo swm y gosb wedi ei leihau neu ei ddileu yn llawn.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth ynghylch apelio yn erbyn hysbysiad cosb neu hysbysiad cosb pellach.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 mewn perthynas â'r wybodaeth ragnodedig y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad galw am dalu a gyflwynir i dalwr ardrethi. Bydd y diwygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau galw am dalu gynnwys gwybodaeth sy'n atgoffa talwyr ardrethi am y ddyletswydd gwybodaeth hysbysadwy.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 i sicrhau bod darpariaethau perthnasol y Rheoliadau hynny'n gymwys mewn perthynas ag apelau a ddygir yn erbyn hysbysiadau cosb o dan y Rheoliadau hyn, ar wahân i'r diwygiad yn rheoliad 11(3)(b), sy'n sicrhau y caniateir cynnwys awdurdod bilio yn barti i apêl a ddygwyd o dan ddarpariaethau penodol yn Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 4(6)(b) yn nodi na chaniateir gwneud hawliad i adennill cosb "os gwneir adolygiad o dan reoliad 6(2)". A ddylai hyn gyfeirio at sefyllfa lle mae adolygiad yn ofynnol neu lle gofynnir am adolygiad yn hytrach nag at sefyllfa lle "gwneir" adolygiad?

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 7(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn dweud "the amount of the revised penalty amount" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "swm diwygiedig y gosb".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae rheoliad 4(4) yn nodi bod rhaid talu unrhyw swm sy'n dod i law'r awdurdod bilio drwy gosb o dan reoliad 4(1) i Gronfa Gyfunol Cymru.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

> *"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 a 2.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y testun yn annhebygol o beri dryswch i'r darllenydd ond bydd yn diwygio rheoliad 4(6)(b) cyn gwneud y Rheoliadau er mwyn dilyn geiriad rheoliad 6(2) yn agosach.

Pwynt Craffu Technegol 2: Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod unrhyw wahaniaeth mewn ystyr rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i'r testun Cymraeg ddarllen "*swm swm diwygiedig y gosb*", sef yr hyn a fyddai'r cyfieithiad llythrennol ac uniongyrchol o'r testun Saesneg.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud*

| CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU | CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU |
|---|---|
| **Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026** | **The Non-Domestic Rating (Provision of Information About Changes of Circumstances) (Wales) Regulations 2026** |
| Yn rheoliad 4(6)(b), bydd y gair "gwneir" yn cael ei gywiro i ddarllen "gofynnir am". | Yn rheoliad 4(6)(b), bydd y gair "made" yn cael ei gywiro i ddarllen "requested". |
| Bydd mân faterion fel gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro, a bydd mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau, cyn gwneud y Rheoliadau. | |

Eitem 4.3

# SL(6)693 – Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae’r system bresennol o ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau sy'n gysylltiedig â'r dreth gyngor wedi'i nodi yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno.

Bwriad y Rheoliadau hyn yw i fod yn offeryn cydgrynhoi sy'n ailddatgan ac yn diwygio'r darpariaethau presennol, yn ogystal â gwneud darpariaethau pellach.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli'r offerynnau statudol canlynol o ran eu cymhwyso i Gymru.

- Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992;
- Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992;
- Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992; a
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998.

Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a darpariaethau dehongli.

Mae Rhan 2 yn rhagnodi’r swm o ddisgownt y dreth gyngor mewn perthynas â meddiannaeth a dosbarthau penodol ar anheddau nad ydynt wedi eu meddiannu. Yn benodol maent yn rhagnodi swm disgownt pan fo gan annedd feddiannydd sengl, swm disgownt pan ddiystyrir holl feddianwyr annedd (gweler Rhan 3 ynghylch hynny), a gostyngiadau penodol sy’n gysylltiedig ag anheddau.

Mae Rhan 3 yn rhagnodi dosbarthau o bersonau a ddiystyrir at ddibenion disgownt y dreth gyngor o dan Ran 2.

Mae Rhan 4 yn rhagnodi eithriadau (ar gyfer rhai dosbarthau o bersonau a ddiystyrir at ddibenion disgownt y dreth gyngor) rhag bod yn atebol am y dreth gyngor ar y cyd ac yn unigol.

Mae Rhan 5 yn rhagnodi esemptiadau rhag bod yn atebol i dalu’r dreth gyngor mewn perthynas â dosbarthau penodol ar anheddau.

Mae Rhan 6 yn cyflwyno Atodlen 4 sy’n gwneud darpariaeth ar gyfer diwygiadau a dirymiadau canlyniadol.

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer anheddau sy’n gysylltiedig â swyddi.

Mae Atodlenni 2 a 3 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â myfyrwyr a sefydliadau addysgol rhagnodedig.

Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau a dirymiadau sy'n ganlyniadol ar y Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 1(3) yn diffinio "awdurdod bilio" at ddibenion "paragraff (2)" o'r Rheoliadau hyn. Ni ddefnyddir y term hwn ym mharagraff (2). Fodd bynnag, fe'i defnyddir yn y diffiniad "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yn rheoliad 1(3) ac yn rheoliad 29, Dosbarth A, paragraff (6) a Dosbarth C, paragraff (4). Felly, nid yw'n glir ble y bwriedir i'r diffiniad o "awdurdod bilio" yn rheoliad 1(3) fod yn berthnasol.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 1(3), yn y diffiniad o "awdurdod bilio", nodir teitl Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn llawn, ond fe'i diffinnir yn rheoliad 2 fel "Deddf 1992" ar gyfer y Rheoliadau hyn. Dylid bod wedi defnyddio hyn yn y diffiniad o "awdurdod bilio" fel y gwnaed yn y diffiniad o "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yn rheoliad 1(3).

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2, diffinnir "leave to enter or remain" yn Saesneg ar gyfer y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a ddylid diffinio'r term "leave to enter or remain in the United Kingdom" gan mai dyma'r ymadrodd a ddefnyddiwyd drwy gydol y Rheoliadau. Mae'r diffiniad yn y testun Saesneg hefyd yn wahanol i'r un a geir yn y testun Cymraeg, sef "caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi".

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "leave to enter or remain" neu "caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi", mae gwahaniaeth ystyr rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "thought right to allow P", tra bod y testun Cymraeg yn nodi "credir ei bod yn iawn caniatáu i'r person". Nid yw'r testun Cymraeg yn defnyddio'r term "P" a ddiffiniwyd yng ngeiriau agoriadol y diffiniad o "caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi". Mae hyn hefyd yn anghyson â'r darpariaethau eraill yn y diffiniad hwnnw lle defnyddiwyd "P" yn y testun Cymraeg.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 2(2)(b) i (d), disgrifir y diwygiadau i'r diffiniadau yn rheoliad 1(2) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 fel rhai a wneir "fel y mae'n gymwys o ran Cymru". Nid yw'n glir a oes angen ailadrodd y datganiad hwn oherwydd bod darpariaeth gymhwyso bresennol yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau hyn. Gellir dadlau hefyd bod y pwerau galluogi eisoes yn cyfyngu ar Weinidogion Cymru fel mai dim ond mewn perthynas â Chymru y bydd unrhyw ddiwygiadau'n berthnasol. Gallai fod yn ddryslyd i ddarllenydd oherwydd bydd hyn hefyd yn wir am y diwygiadau eraill a wneir gan Atodlen 4, er nad ydynt wedi'u nodi'n benodol. Er enghraifft, ym mharagraff 1(4) o Atodlen 4, gwneir diwygiad i hepgor paragraff 1(1)(b)(iii) o Atodlen 1 i Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992. Fodd bynnag, dim ond yn Atodlen 1 y mae'r ddarpariaeth hon yn bodoli "fel y mae'n gymwys o ran Cymru" ond nid yw hyn wedi'i ddatgan yn benodol yn y diwygiad hwnnw. O'r herwydd, mae'n ymddangos bod dull anghyson.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Atodlen 11, paragraff 4, nid yw'r diwygiadau'n nodi ble mae'r paragraffau i'w cael yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru )2013. Dylid nodi bod y paragraffau i'w cael yn yr Atodlen i Reoliadau 2013. Mae offerynnau diwygio blaenorol wedi cynnwys ymadrodd fel "yn y cynllun a nodir yn yr Atodlen i..." er mwyn nodi'r lleoliad ar gyfer y diwygiad.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad) yn nodi fel a ganlyn:

> ***"****2.1 Mae'r offeryn hwn wedi'i lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymreig. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau*

*i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau 1-6.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026**

**Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 3, 4 a 6:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwyntiau adrodd hyn a bydd yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cywiro fel y nodir isod cyn eu gwneud. Mewn perthynas â phwynt 6, nodwn fod y gwall mewn perthynas ag Atodlen 4 paragraff 11 ac nid Atodlen 11 paragraff 4.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

Mae'r offeryn sy'n cael ei ddiwygio (Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992) yn cynnwys testun cyfochrog sy'n gymwys ar wahân i Gymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn ddoeth egluro cymhwysiad y testun sy'n cael ei fewnosod yn yr offeryn. Cadarnheir y dull hwn gan baragraff 7.28(3) o *Drafftio Deddfau i Gymru*.

<u>Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud Rheoliadau 2026:</u>

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026** | **The Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions) (Wales) Regulations 2026** |
| Yn rheoliad 1(3) bydd y geiriau "Ym mharagraff (2)" yn cael eu diwygio i ddarllen "Yn y rheoliad hwn". Bydd yr un diffiniad o awdurdod bilio hefyd yn cael ei ychwanegu at reoliad 28. | Yn rheoliad 1(3) bydd y geiriau "In paragraph (2)" yn cael eu diwygio i ddarllen "In this regulation". Bydd yr un diffiniad o awdurdod bilio hefyd yn cael ei ychwanegu at reoliad 28. |
| Yn y diffiniad o "awdurdod bilio" yn rheoliad 1(3) bydd y geiriau "Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992" yn cael eu diwygio i ddarllen "Ddeddf 1992". | Yn y diffiniad o "billing authority" yn rheoliad 1(3) bydd y geiriau "Local Government Finance Act 1992" yn cael eu diwygio i ddarllen "1992 Act". |
| Yn y diffiniad o "caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi", bydd y geiriau "in the United Kingdom" yn cael eu hychwanegu at y diffiniad Saesneg cyfatebol mewn cromfachau i ddarllen "leave to enter or remain in the United Kingdom" ac ym mharagraff (a)(ii) bydd y geiriau "caniatáu i'r person hwnnw" yn cael eu diwygio i ddarllen "caniatáu i P". | Yn y diffiniad o "leave to enter or remain" yn rheoliad 2 bydd y geiriau "in the United Kingdom" yn cael eu hychwanegu at y diffiniad i ddarllen "leave to enter or remain in the United Kingdom". |

<table>
<tr><td>Bydd paragraff 11(1) o Atodlen 4 yn cael ei ddiwygio i ddarllen “Mae’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn”.</td><td>Bydd paragraff 11(1) o Atodlen 4 yn cael ei ddiwygio i ddarllen “The scheme set out in the Schedule to the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 is amended as follows.”</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd mân faterion teipograffyddol a throednodiadau hefyd yn cael eu cywiro.</td></tr>
</table>

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/6/26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

9 Ionawr 2026

Annwyl Mike

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i roi gwybod ichi am gyfarfod o'r Grwp Rhyngweinidogol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gynhelir ar 4 Chwefror 2026.

Bydd y cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal yng Ngogledd Iwerddon a bydd yn cael ei gadeirio gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Bydd agenda'r cyfarfod yn canolbwyntio ar bynciau sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu strategaethau tai.

Anfonaf adroddiad ar y cyfarfod atoch.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

14 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i roi gwybod bod Adroddiad Blynyddol 2025 y Cytundeb Cydweithredu Treftadaeth Geltaidd – Cernyw-Cymru wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Cernyw, a'i fod ar gael yma.

Llofnodwyd Cytundeb Cydweithredu Treftadaeth Celtaidd - Cernyw-Cymru gan Gyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2023. Mae'r Cytundeb, sy'n weithredol am bum mlynedd i gychwyn, yn adeiladu ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng Cyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru drwy annog rhagor o gydweithio a dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac o fudd iddynt. Cafodd pedwar maes, sy'n cynnig cyfle sylweddol i feithrin y berthynas rhwng Cernyw a Chymru, eu nodi. Sef:

a) Darparu tai cynaliadwy.
b) Cyflawni Sero Net
c) Economïau gwledig ffyniannus.
d) Dathlu iaith a diwylliant.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-MDFWL-3074-25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

**Datblygu'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Diolch i chi ac i'r Pwyllgor am graffu'n fanwl ar ddatblygiad y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), am eich adroddiad a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2025, ac am yr argymhellion sy'n cyd-fynd â hynny.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Rwy'n bwriadu ymateb i'r prif bwyntiau a godwyd yn yr argymhellion yn ystod y ddadl ei hun a byddaf yn ysgrifennu eto ar ôl y ddadl os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol ei rhannu cyn Cyfnod 2. Fodd bynnag, yn unol â'ch cais, mae'r ymatebion rhagarweiniol i argymhellion 6, 13, 15, 17, 18, 20, 21 a 23 yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Mae pob un o'r rhain yn cynnig bod y Llywodraeth yn darparu gwybodaeth 'cyn' y ddadl yn y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Ymatebion Rhagarweiniol i Argymhellion Adroddiad Cyfnod 1**

**Diwygiadau Cyfnod 2**

**Argymhelliad 6**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa welliannau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.*

Yn fy ymateb i'r argymhelliad hwn, rwyf wedi nodi isod amryw o ddiwygiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2, gan gynnwys y rhai mewn ymateb i faterion a godwyd gan aelodau o'r Pwyllgor a rhanddeiliaid eraill yn ystod proses graffu Cyfnod 1, ac argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Mae swyddogion hefyd yn parhau i adolygu'r Bil yng ngoleuni'r dystiolaeth a roddwyd yn ystod proses graffu Cyfnod 1, gan gynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig ategol y cyfeirir ati yn argymhelliad 23, er mwyn ystyried a fydd cyfleoedd eraill i egluro effaith fwriadedig y Bil, a byddaf yn cyflwyno amryw o ddiwygiadau yn y Bil drwyddo draw at y diben hwn.

Gan ddychwelyd i **argymhelliad 6**, mae'r diwygiadau a nodir isod hefyd yn cynnwys fy ymateb i nifer o argymhellion eraill gan y Pwyllgor hwn, yn ogystal ag argymhellion 3, 5, 7 ac 8 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. (Ym mhob un o'r achosion hyn, rwy'n bwriadu derbyn yr argymhellion cyfatebol, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor). Mae'r diwygiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- <u>Cychwyn a dod i rym</u> (Adran 59) – I gynnwys darpariaeth codiad haul fel *backstop* i gychwyn y Ddeddf os nad yw wedi cychwyn erbyn y dyddiad a nodir.
  (Argymhelliad 4 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Adolygu ar ôl gweithredu</u> – I gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad ôl-weithredu.
  (Argymhelliad 7 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhelliad 3 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Gweithdrefn ar gyfer ymestyn diffiniad llety ymwelwyr rheoleiddiedig</u> (Adran 5) – I gynnwys gofyniad i ymgynghori am gyfnod gofynnol cyn defnyddio'r pŵer o dan baragraff 5(1)(b).
  (Argymhelliad 9 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhelliad 5 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Safon atal tân</u> (Adran 9) – I egluro'r gofyniad a sicrhau cydraddoldeb â Gorchymyn Diogelwch Tân 2005.

(Argymhelliad 13 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- Cyfnodau trwydded (Adran 25) – I gynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gwahanol gyfnodau trwydded.
  (Argymhelliad 16 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- Gweithdrefnau ar gyfer Rheoliadau (Adran 57) – I gynnwys cyfeiriad at adrannau 27 (trwyddedau dros dro), 38 (ffioedd) (ar gyfer y tro cyntaf y caiff rheoliadau o'r fath eu gwneud) a 40 (darpariaeth sy'n ymwneud â meysydd gwersylla a safleoedd carafanau) yn y rhestr o bwerau sy'n gorfod cael Cymeradwyaeth y Senedd.
  (Argymhelliad 19 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhellion 7 ac 8 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- Troseddau – I gynnwys cyfyngiad ar ddarpariaethau o dan y Bil sy'n cynnwys y pŵer i greu troseddau i sicrhau nad yw euogfarnau'n arwain at ddedfryd o garchar.
  (Mae Argymhellion 6 ac 10 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

Bydd rhagor o wybodaeth am fanylion y diwygiadau hyn, ac unrhyw rai eraill sydd eu hangen, ar gael yn y ddogfen diben ac effaith a gaiff ei rhannu wrth gyflwyno yng Nghyfnod 2.

**Materion ychwanegol**

Mae gweddill yr Atodiad hwn yn cynnwys y wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani yn yr argymhellion priodol cyn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 15**

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a chadarnhau nifer cyfartalog y trwyddedau ar y cyfan y mae Rhentu Doeth Cymru'n ymdrin â hwy bob blwyddyn a'r amser a gymer i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi hefyd unrhyw amcangyfrif a wnaed ganddo o'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi'r 30,000 o drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.*

Mae Swyddogion yn adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a rannwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor ar hyn yn ysgrifenedig, gan ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen hefyd, fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 23 isod.

**Argymhelliad 17**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Senedd ynghylch sut y disgwylir i'r ddarpariaeth ar gyfer cwynion yn adran 22 weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y bydd cwynion yn cael eu hasesu a beth fydd yr effaith ymarferol pe bai cwyn yn cael ei chadarnhau.*

Mae'r ddarpariaeth mewn perthynas â chwynion yn adran 22 yn darparu mecanwaith i roi gwybod i bob ymwelydd sut mae codi materion ynghylch statws trwydded y llety maent yn aros ynddo, oherwydd cwynion fydd un o'r prif ffynonellau gwybodaeth am doriadau posib o amodau trwydded.

Gellir cymryd camau penodol o dan y Bil dim ond os bydd cwyn yn rhoi rheswm i'r awdurdod trwyddedu gredu bod amod trwydded wedi'i dorri neu fod y darparwr llety wedi troseddu drwy ddarparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i'r awdurdod trwyddedu. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i'r awdurdod trwyddedu ofyn am ragor o wybodaeth gan y darparwr, naill ai'n anffurfiol neu o dan hysbysiad gwybodaeth; cynnal arolygiad; neu, os yw'n fodlon bod toriad wedi digwydd, cyhoeddi hysbysiad camau adfer yn rhoi gwybod i'r darparwr pa gamau mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gadw eu trwydded.

Dylai materion gael eu codi â'r darparwr neu'r asiant archebu yn y lle cyntaf, ond byddwn dynnu sylw at y mathau o faterion y dylid eu dwyn i sylw'r awdurdod trwyddedu. Bydd y canllawiau'n cynnwys manylion ychwanegol o ran sut yr ymdrinnir â chwynion i sicrhau bod ymwelwyr a darparwyr yn deall y broses.

**Argymhelliad 18 – Rolau Awdurdodau Lleol a Croeso Cymru**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl bosibl yn y broses orfodi, ac egluro'r rôl bosibl y gallai Croeso Cymru ei chwarae.*

Mae swyddogion wedi cael – ac yn parhau i gael – trafodaethau â CLILC am rôl bosib awdurdodau lleol yn y broses orfodi ar y sail yr oeddwn i wedi'i disgrifio wrth roi tystiolaeth yn y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar fanylion gweithredol rhoi'r Bil ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei swyddogaethau twristiaeth presennol drwy ei dîm twristiaeth mewnol (Croeso Cymru) a bydd yn sicrhau bod y gwaith o gyflawni swyddogaethau twristiaeth o dan y Bil yn cael ei gydlynu â'r gwaith hwn.

Pe bai mathau eraill o lety yn cael eu hychwanegu at gwmpas y gyfundrefn drwyddedu yn y dyfodol, neu fod mathau newydd o amodau yn cael eu hychwanegu, byddai angen adolygu'r trefniadau hynny o fewn y cyd-destun newydd hwnnw.

**Argymhelliad 20**

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach sut y bwriedir i'r ddarpariaeth yn adran 42 weithio'n ymarferol, gan gynnwys ei chyfiawnhad dros gynnwys 42(4).*

Bwriad y darpariaethau contractiol yw ategu'r cynllun trwyddedu, felly yn ogystal â'r awdurdod yn gorfodi amodau trwyddedu, mae llwybr clir i ymwelwyr gael iawndal os nad yw llety yn addas i aros ynddo. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn cymell cydymffurfedd, yn atgyfnerthu hyder ymwelwyr ac yn hybu safonau llety ymwelwyr yng Nghymru.

Mae ymwelwyr eisoes yn disgwyl i ddarparwyr ddatrys problemau yn gyflym, a lle nad yw hynny'n bosib, i gytuno ar ddatrysiad teg ac addas. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ad-daliad llawn neu rannol, neu lety arall addas os yw'r broblem yn un sylweddol. Yn ymarferol, mae'r un peth yn berthnasol o dan y darpariaethau hyn, sef y byddem yn disgwyl i ddarparwr ac ymwelydd ddatrys y problemau hyn rhyngddynt eu hunain, heb fod angen camau cyfreithiol. Os na ellir datrys y mater fel arall; yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'r Bil yn codeiddio hawl yr ymwelydd i geisio rhwymedi drwy'r llysoedd. Fodd bynnag, ni fyddem yn rhag-weld y byddai'r awdurdod trwyddedu yn cymryd rhan yn y materion hyn, ac eithrio i'r graddau y maent yn rhyngweithio â swyddogaethau'r awdurdod i ddelio â thoriadau posib o amodau trwyddedu.

Mae'r Bil yn darparu cyfyngiadau i sicrhau bod y rhwymedigaeth yn rhesymol ac yn gymesur yn ymarferol. Mae adrannau 43 a 44 yn cyfyngu ar atebolrwydd y darparwr pan mai gweithredoedd yr ymwelydd ei hun yw achos y broblem, lle nad oedd y darparwr yn ymwybodol o broblemau (neu ni fyddai disgwyl yn rhesymol i'r darparwr fod yn ymwybodol), neu ar ôl dod yn ymwybodol bod y problemau wedi cael eu datrys o fewn cyfnod rhesymol.

Yn olaf, mae is-adran 42(4) yn egluro hyd a lled y rhwymedigaeth pan fydd partïon eraill yn gysylltiedig i sicrhau, er enghraifft, mewn achosion lle mae archeb yn cael ei gwneud ar ran yr ymwelydd gan berson arall, neu lle mae un person wedi archebu ar gyfer grŵp o bobl, bod y rhwymedigaeth yn berthnasol i'r holl ymwelwyr sy'n aros yn y llety. Bydd y canllawiau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y darpariaethau hyn cyn gweithredu.

**Argymhelliad 21**

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet:*

- *ddarparu diweddariad am drafodaethau gyda phlatfformau/asiantau archebu ynghylch y darpariaethau yn adrannau 46 a 47,*
- *darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros estyn y drosedd arfaethedig i gyrff heblaw darparwyr llety ymwelwyr, a*
- *darparu rhagor o wybodaeth am y camau penodol y gallai fod angen eu cymryd i gadarnhau amddiffyniad i'r trosedd arfaethedig.*

Ymgysylltu

Mae Awdurdod Cyllid Cymru eisoes wedi bod yn trafod â rhai o'r platfformau archebu llety ymwelwyr mawr ynghylch gofynion ar gyfer rhifau cofrestru. Y bwriad yw gweithio at ddatrysiad sy'n gweithio ar raddfa fawr i helpu i'w gwneud hi mor hawdd â phosib iddynt fodloni'r gofynion. Mae fy swyddogion hefyd yn parhau i drafod y Bil yn ei gyfanrwydd â rhanddeiliaid ar draws y sector, gan gynnwys platfformau a chyrff cynrychioladol, a byddant yn parhau i weithio gyda nhw drwy gydol y broses o'i weithredu. Ein nod yw datblygu datrysiadau tebyg i blatfformau archebu llai a darparwyr eraill, yn ogystal â datblygu canllawiau gweithredol i amlinellu disgwyliadau clir ac i helpu i sicrhau bod y rhai sy'n hysbysebu llety ymwelwyr yng Nghymru yn gallu cydymffurfio'n hawdd â'r gofynion.

Sail resymegol

Wrth ddatblygu'r Bil, rydym wedi ystyried y ffordd orau o sicrhau bod ymwelwyr yn gallu gweld a yw llety ymwelwyr penodol wedi'i drwyddedu. Y ffordd orau o sicrhau eglurder, tryloywder a sicrwydd i bawb – ymwelwyr, y sector a chymunedau fel ei gilydd – yw cael un ffynhonnell wybodaeth gyhoeddus.

Dyna pam mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- creu Cyfeiriadur Llety Ymwelwyr (drwy adran 45);
- rhoi rhif unigryw i bob eiddo llety ymwelwyr wrth gofrestru (drwy ddiwygiad i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn Atodlen 2 i'r Bil) sy'n cael ei gynnwys yn y Cyfeiriadur;
- gofyniad i'r rhif hwnnw gael ei ddangos mewn unrhyw hysbysebion a deunydd marchnata, pwy bynnag sy'n hysbysebu'r llety.

Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn creu un system dryloyw i unrhyw un allu defnyddio rhif cofrestru eiddo mewn hysbyseb i edrych ar y cyfeiriadur i weld a yw llety ymwelwyr penodol wedi'i gofrestru neu ei drwyddedu – ac os nad yw wedi'i drwyddedu, pam ddim.

Pwrpas y Bil yw hybu twristiaeth yng Nghymru ac mae'r gofynion o ran hysbysebu o dan adrannau 46 a 47 yn hollbwysig er mwyn rhoi sicrwydd i ymwelwyr sy'n archebu llety ymwelwyr rheoleiddiedig ei fod yn cyrraedd y safonau gofynnol. Maent yn rhan hanfodol o sicrhau uniondeb y cynllun, gan ddarparu adnodd i'r awdurdod trwyddedu, Awdurdod Cyllid Cymru, ymwelwyr ac eraill allu gweld yn haws a yw darparwyr yn cydymffurfio, a phan nad ydynt yn cydymffurfio, i helpu i'w hatal rhag hysbysebu, codi prisiau is na darparwyr eraill, a thanseilio hyder ymwelwyr mewn llety yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw risg o weithredwyr twyllodrus neu o farchnadoedd cudd neu anghyfreithlon yn cael eu creu i lety nad yw'n cydymffurfio.

Os nad yw'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn ddibynadwy, ni fydd hyn yn cael yr effaith a fwriedir. Dyna'r rheswm am y gofynion i fod yn gadarn ac i hyn fod yn berthnasol i bob llety ymwelwyr yng Nghymru, ar draws pob ffurf ar hysbysebu.

Pe baem yn cyfyngu ar y drosedd i ddarparwyr yn unig, byddai naill ai ddim yn berthnasol pan fydd trydydd parti yn hysbysebu eu llety neu gallai hyn golygu bod darparwyr yn

atebol am unrhyw hysbyseb am eu llety, dim ots a ydynt yn ei rheoli ai peidio. Byddai'r enghraifft gyntaf yn creu mannau gwan yn y system pan fydd llety'n cael ei hysbysebu'n anuniongyrchol ac yn golygu mai ychydig iawn o gymhelliant neu gyfrifoldeb fyddai gan blatfformau ac asiantaethau eraill o ran sicrhau bod rhifau cofrestru wedi'u cynnwys ar hysbysebion o gwbl. Gallai'r ail enghraifft olygu bod darparwyr llety ymwelwyr yn cael eu herlyn am wybodaeth anghywir neu ar goll mewn hysbysebion y mae ganddynt ychydig iawn neu ddim rheolaeth drostynt.

Nid yw hi'n afresymol bod platfformau archebu yn cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau bod yr hysbysebion maent yn eu rhestru ar gyfer llety ymwelwyr yn cydymffurfio. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ein gorau i gadw'r system, a'r gofynion hyn, mor syml â phosib i'w helpu i gydymffurfio, lle mae un rhif unigryw yn cael ei neilltuo i bob eiddo llety ymwelwyr ar draws Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i weithio drwy'r elfennau ymarferol a gweithredol gyda nhw, ac yn datblygu canllawiau manwl i amlinellu beth y byddwn yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr, platfformau archebu a mathau eraill o asiantau mewn perthynas â'r gofynion hyn.

Mae hwn yn gynllun sy'n canolbwyntio gyntaf oll ar gefnogi'r sector twristiaeth yng Nghymru drwy wella safonau, ond rhaid inni gael mesurau diogelu cyfreithiol lle bo angen hefyd. Felly, mae'r drosedd yn adran 47, gan gynnwys hysbysebion wedi'u postio gan blatfformau ac asiantaethau, yn angenrheidiol i gefnogi uniondeb ac effeithiolrwydd y cynllun.

<u>Amddiffyniad</u>
Byddwn yn gweithio gyda darparwyr a phlatfformau ar y manylion gweithredol, gan gynnwys y fformat a'r ffordd orau o ddangos rhifau cofrestru, pa wybodaeth arall fydd ei hangen o bosib, er mwyn inni allu datblygu proses sy'n gweithio i'r diwydiant ac sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn gallu cadarnhau gwybodaeth gofrestru a/neu drwyddedu'r llety.

Rwyf wedi ei gwneud hi'n glir drwy gydol y broses na fyddai erlyn yn gam cyntaf wrth ddelio â materion cydymffurfio, p'un ai darparwr, asiant teithio neu archebu neu blatfform archebu mawr sydd dan sylw. Cyhyd â bod platfformau archebu, neu unrhyw un y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol iddynt, yn dilyn y canllawiau ac yn gweithio gyda'r awdurdod trwyddedu i ddelio ag achosion o lety nad yw'n cydymffurfio mor effeithlon ag sy'n rhesymol ymarferol, byddwn yn disgwyl mai ychydig iawn o achosion fydd lle mae'r awdurdod trwyddedu yn dymuno erlyn trosedd o dan adran 47. Fodd bynnag, os bydd angen erlyn, y llysoedd fydd yn penderfynu a yw'r camau sydd wedi'u cymryd mewn achos penodol yn ddigon i fod yn esgus rhesymol dros beidio â dangos y rhif cofrestru cywir.

**Argymhelliad 23**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r dystiolaeth ychwanegol benodol a gafodd y Pwyllgor.*

Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn cael ei gynnal a byddaf yn darparu unrhyw eglurhad neu ymateb ychwanegol gofynnol yn ysgrifenedig.

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA /SM/2942/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

13 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fy mod wedi gosod y Rheoliadau drafft uchod gerbron y Senedd heddiw a bod dadl yn y cyfarfod llawn wedi'i threfnu ar gyfer 24 Chwefror 2026. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 5 Mawrth 2026.

Diben y Rheoliadau hyn yw ychwanegu magnesiwm L-threonad monohydrad i Atodlen 2 i Reoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") ac, wrth wneud hynny, awdurdodi ei ddefnydd mewn atchwanegiad bwyd ar y farchnad yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod meini prawf purdeb ar gyfer y sylwedd yng Nghymru yn unol â rheoliad 5(1)(b) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003.

Rwy'n bwrw ati â'r newid rheoleiddiol hwn yn dilyn cais gan fusnes bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a oedd yn gofyn am gymeradwyo magnesiwm L-threonad monohydrad fel bwyd newydd o dan Reoliad (UE) 2015/2283 ar fwyd newydd o fewn y categori atchwanegiadau bwyd ac am ddiweddaru Atodlen 2 i Reoliadau 2019. Mae asesiad diogelwch ac ymgynghoriad cyhoeddus yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn perthynas â'r sylwedd hwn i'w gweld yma:

- Asesiad diogelwch
- Argymhellion Rheoli Risg
- Ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (19 Rhagfyr 2024 - 19 Chwefror 2025)
- Yr ymatebion i ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd
-

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Daeth yr asesiad diogelwch i'r casgliad nad yw'r sylwedd yn achosi risg i iechyd pobl ac roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad am y sylwedd hwn yn gefnogol i'w gymeradwyo fel bwyd newydd o fewn y categori atchwanegiadau bwyd ac i ddiweddaru Atodlen 2.

Byddaf, ar yr un pryd, yn awdurdodi'r sylwedd i'w ddefnyddio fel bwyd newydd yng Nghymru a bydd y dyddiad ar gyfer gweithredu'r awdurdodiad hwnnw yn cyd-fynd â'r dyddiad dod i rym ar gyfer y Rheoliadau hyn, os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd.

Rwy'n hapus i drafod y Rheoliadau hyn â chi a'r Pwyllgor a byddwn yn croesawu eich barn ar sut y gellid ymgysylltu mewn ffordd a fyddai'n ddefnyddiol i chi ac i'r aelodau eraill i gefnogi eich gwaith craffu.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Ionawr 2026**

Ym mis Ionawr 2026, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (“y Pwyllgor”) ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (“Memorandwm Rhif 2") ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd ("y Bil").

Roedd yr adroddiad yn cytuno â'n hasesiad ac nid oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru.

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 7 Mai 2025.

Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

a) Darparu pwerau newydd i farnwyr gosbi troseddwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol i gael eu dedfrydu, gan gynnwys ystod o gosbau carchar yn ogystal â blynyddoedd ychwanegol ar eu dedfryd.

b) Cyfyngu cyfrifoldeb rhieni yn awtomatig ar gyfer troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu am drosedd cam-drin rhywiol difrifol yn erbyn eu plentyn eu hunain.

c) Cryfhau pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr i sicrhau bod mwy o graffu ar y systemau sy'n cefnogi dioddefwyr.

d) Rhoi sicrwydd i ddioddefwyr am y llwybrau sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth ynghylch rhyddhau eu troseddwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r amcanion pwysig hyn.

Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 20 Mai 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 5 Tachwedd 2025 i'r perwyl hwn.

## Yr ymateb i'r adroddiad

Mae gweld bod y Pwyllgor yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 2, mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arni yn unol â Rheol Sefydlog 29, yn rhywbeth i'w groesawu.

Rwyf am ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hasesiad o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

Ysgrifennais ym mis Awst y llynedd i roi gwybod i'r Pwyllgor, ar 22 Gorffennaf 2025, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi ei fod wedi lansio'r broses i fabwysiadu dau benderfyniad digonolrwydd newydd ar gyfer y DU i ganiatáu llif rhydd data personol rhwng yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU.

Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, ar 19 Rhagfyr 2025, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau bod y ddau benderfyniad digonolrwydd ar gyfer y DU wedi'u hadnewyddu. Mae'r penderfyniadau newydd yn ddarostyngedig i gymal machlud o chwe blynedd, sy'n para tan 27 Rhagfyr 2031. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â chynrychiolwyr y Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd, hefyd yn adolygu gweithrediad y penderfyniadau digonolrwydd ar ôl cyfnod o bedair blynedd.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

cc.
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 9



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565



The Rt Hon Elin Jones MS
Chair, Business Committee

12 January 2026

Annwyl Lywydd

Supplementary Legislative Consent Memorandum: Terminally Ill Adults (End of Life) Bill

Earlier today we considered the above memorandum (Memorandum No. 3), which was laid before the Senedd on 23 December 2025.

Paragraph 4 of Memorandum No. 3 highlights that:

- between 14 November and 18 December 2025, 1,159 amendments were tabled to the Bill at Committee Stage in the House of Lords;
- more amendments are expected as the Bill continues its progress;
- the Bill sponsor in the House of Lords, Lord Falconer, has tabled 36 amendments of which five have been identified as having regard to devolved matters (and are the subject of Memorandum No. 3).

As matters currently stand, the legislative consent motion is scheduled for debate on 20 January 2026. This leaves very little time for us to conduct effective scrutiny of Memorandum No. 3 and that is of considerable concern to us given the significance of this legislation.

This concern is heightened because of the content of Memorandum No. 3 and some apparent gaps and contradictions it contains, which would benefit from further clarity. These include the following:

- Memorandum No. 3 does not confirm what assessments the Welsh Government has made in relation to any of the other 1,154 amendments to the Bill currently tabled or whether the Welsh Government considers that any of these amendments may make provision with regard to devolved matters. It is also notable that the Welsh Government



Senedd Cymru
Welsh Parliament

has not referred to any of the other amendments tabled that also propose to amend the clauses that are the subject of Memorandum No. 3;

- related to this point, paragraph 5 of Memorandum No. 3 describes the five relevant amendments as those "most likely to engage devolved matters" [emphasis ours], which may suggest that the Welsh Government acknowledges that additional amendments, not included in the memorandum, will have regard to devolved matters. But paragraph 6 confuses the picture further by stating that: "The amendments that make provisions which have regard to devolved matters, are detailed in paragraphs 13 to 16 below", which is a more definitive statement.

We recognise that the debate on the legislative consent motion will cover the principles of whether legislation on assisted dying should extend to Wales. However, it also important that Members are clear about the specific provisions in the Bill which they are being asked to consent to (there may be merit in including that information in the motion in the absence of clarity in the memoranda). Equally, given the amendments that are the subject of Memorandum No. 3 have not yet been formally considered by the Lords (see paragraph 5 of Memorandum No. 3), it is unclear whether they will have been disposed of by 20 January 2026, when the debate on the relevant legislative consent motion is currently due to take place.

For these reasons, we would request that a reporting deadline is set that provides sufficient time for us to scrutinise the implications of Memorandum No. 3, with a corresponding delay to the date of the debate on the legislative consent motion. In making this request, we note that time has been set aside for scrutiny of the Bill in the House of Lords beyond the date of dissolution, although we recognise it may be subject to change.

I am copying this letter to Peter Fox MS, the Chair of the Health and Social Care Committee.

Yours sincerely,



Mike Hedges
Chair

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon